

Sir Gaerfyrddin

Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Ardaloedd Gwledig Sir Gaerfyrddin

Dogfen Grynodol



Cyflwyniad

Mae strategaeth datblygu lleol ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin yn cynnig fframwaith ar gyfer adfywio'r economi wledig mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig (2014-2020); y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi newydd (2014-2020) a ffrydiau cyllido eraill a ddarperir i rannau gwledig o'r Sir dros y cyfnod.

Mae'r strategaeth yn cynnig dull partneriaeth o fynd i'r afael â heriau allweddol sy'n atal twf cyflogaeth a ffyniant yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin ac mae'n cael ei gyrru gan flaenoriaethau Strategaeth Adfywio Economaidd De-orllewin Cymru (SWWERS). Gan fod ardaloedd gwledig yn cynrychioli mwy na 60% o boblogaeth y Sir, mae gan yr economi wledig ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni nodau Strategaeth Adfywio ehangach y Sir.

Gwnaed cryn gynnydd dros y 7 mlynedd diwethaf o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (2007-13); fodd bynnag, erys rhai heriau o hyd sy'n galw am ddull amlasiantaeth i sicrhau y ceir yr effaith fwyaf bosibl. Mae'r strategaeth hon yn esbonio sut y bwriadwn wireddu ein gweledigaeth.

Wendy Walters


Cadeirydd Grŵp Cefn Gwlad



Ardaloedd Gwledig Sir Gaerfyrddin

Mae ardaloedd gwledig yn ffurfio rhan sylweddol o Sir Gaerfyrddin, sef cymaint â 94% o fesur arwynebedd tir. Gan fod ardaloedd gwledig yn cynnwys mwy na 62% (ffigyrau poblogaeth wardiau cyfrifiad 2011) o boblogaeth y Sir, mae gan yr economi wledig ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni nodau adfywio'r Sir.

At ddibenion y strategaeth hon, y canlynol yw ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin:



Wardiau Gwledig:

Abergwili	Llanymddyfri	Llanismel
Gogledd Tref Caerfyrddin	Llandybïe	Tre-lech
De Tref Caerfyrddin	Llanegwad	Hendy-gwyn ar Daf
Gorllewin Tref Caerfyrddin	Llanfihangel Aberbythych	Cydweli
Cenarth	Llanfihangel-ar-arth	Cwarter Bach
Cil-y-cwm	Llangadog	Pen-bre
Cynwyl Elfed	Llangeler	Pontyberem
Cynwyl Gaeo	Llangynnwr	Yr Hendy
Gors-las	Llangyndeyrn	Y Glyn
Talacharn	Llansteffan	Llannon
Llanboidy	Llanybydder	Glanaman
Llanddarog	Manordeilo a Salem	Trimsaran
Llandeilo	Sanclêr	Y Garnant



Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau Ardaloedd Gwledig Sir Gaerfyrddin

Cryfderau

- Ansawdd bywyd uchel
- Cyfraddau troseddu/ canfyddiadau troseddu isel
- Diwylliant a threftadaeth leol amrywiol a chyfoethog
- Nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (43%)
- Ymdeimlad cryf o gymuned
- Amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth trawiadol
- Cyraeddiadau addysgol uchel
- Agos at yr M4 a phrif gefnffyrdd trwy'r sir
- Cymuned amaethyddol ddatblygedig
- Nifer o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SDdGA)
- Sector bwyd cryf
- Cysylltiadau cryf rhwng Addysg Bellach/Addysg Uwch
- Sector celf a chrefft cryf
- Diwylliant chwaraeon cryf
- Nifer uchel o ymwelwyr yn ailymweld

Gwendidau

- Mae twf Gwerth Ychwanegol Gros yn gyson is nag yng Nghymru a'r DU
- Mae'r economi yn cynnwys mwy o sectorau a galwedigaethau gwerth is
- Cynhyrchiant yn parhau i leihau
- Dryswch yn y farchnad o ran cymorth i fusnesau
- Hyfywedd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig
- Lefelau incwm cymharol isel o'u cymharu â gweddill Cymru
- Yr angen i ofalu am gefnffyrdd yn effeithio ar waith gofalu am brif ffyrdd
- Diffyg adeiladau i gynorthwyo busnesau i dyfu
- Amharodrwydd microfentrau i ehangu
- Dim digon o lwybrau cerdded / seiclo / ceffylau
- Misoedd rhwng tymhorau – llai o ymwelwyr
- Twristiaeth yn dibynnu ar y tywydd – angen cynnig arlwy sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin yn wahanol
- Dibyniaeth ar grantiau
- Dim digon o bobl yn meddu ar sgiliau lefel uwch
- Lefel uchel o anweithgarwch economaidd
- Diffyg cysylltiadau trafnidiaeth mewn sawl ardal
- Lefel uchel o hunangyflogaeth
- Tlodi cyffredin ond cudd
- Nifer cyfyngedig o brentisiaethau
- Cyfleusterau prosesu bwyd cyfyngedig yn y sector bwyd a dim cyrsiau cynhyrchu bwyd Addysg Bellach/Addysg Uwch



Cyfleoedd

- Ehangu a chryfhau'r sector twristiaeth
- Gwaith partneriaeth
- Harneisio cyfleoedd technoleg
- Arallgyfeirio Ffermydd
- Teilwra addysg a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i helpu busnesau i dyfu
- Ehangu'r cynllun prentisiaeth i sectorau newydd
- Manteisio ar adleoli S4C – cyfle i gadwyn gyflenwi
- Datblygu safleoedd a phrosiectau ynni adnewyddadwy
- Safle Cyflogaeth Strategol a Pharc Bwyd Cross Hands
- Gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector i allanoli gwasanaethau
- Ehangu safleoedd cyflogaeth presennol a chreu rhai newydd
- Nifer fawr o bobl hunangyflogedig
- Trefi marchnad llawn cymeriad
- Band eang cyflym iawn erbyn 2016
- Gwneud y gorau o TG – wrth i leoliad ddod yn llai pwysig
- Cyfoeth gwirfoddolwyr
- Newidiadau o ran patrymau darparu gwasanaethau cyhoeddus / trosglwyddo asedau
- Manteisio ar botensial y sylfaen gref o ficrofusnesau diwyd, cryf / hunangyflogaeth - trwy rwydweithiau, cadwyni cyflenwi, datblygu cyfleoedd ac ati
- Datblygu ffyrdd o ddefnyddio cyfleusterau cymunedol a'u galluogi i ddod yn fwy hunangynhaliol

Bygythiadau

- Yr iaith Gymraeg yn dirywio a cholli hunaniaeth leol
- Dibyniaeth drom ar sefydliadau sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau allweddol
- Gwelir Sir Gaerfyrddin yn borth i Sir Benfro, ac mae ymwelwyr yn mynd heibio i Sir Gaerfyrddin
- Trydanu rheilffyrdd mor bell ag Abertawe a dim cynlluniau pendant i wella rheilffyrdd o Abertawe i'r Gorllewin
- Grantiau / ariannu tymor byr
- Cymorthdaliadau amaethyddol yn lleihau
- Poblogaeth hŷn ac yn heneiddio yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus
- Gorddibyniaeth ar sectorau sy'n ychwanegu gwerth is fel amaethyddiaeth sy'n agored i gael eu heffeithio gan ffactorau allanol
- Talent yn gadael yr ardal oni chaiff swyddi da eu creu



Nodiadau ac amcanion strategol

Gwelir isod nodau strategol lefel uchel y Strategaeth Datblygu Lleol:

Nod strategol 1: Cefnogi busnesau i dyfu, parhau ac arbenigo

Mae ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin yn bennaf yn cynnwys nifer fawr o fusnesau bychain a microfusnesau sy'n allweddol i gynaliadwyedd yr economi wledig. Yn ychwanegol at sectorau traddodiadol fel amaethyddiaeth, mae twristiaeth, addysg, iechyd a diwydiannau creadigol yn ffurfio asgwrn cefn yr economi wledig. Nid yw llawer o'r sylfaen busnes sefydledig yn perthyn i'r categori twf uchel, ac mae llawer o'r busnesau hyn yn rhai teuluol. Nid yw hynny'n golygu nad oes gan y busnesau hyn unrhyw botensial neu nad ydynt yn bwysig inni. Ein nod felly yw denu, datblygu a chadw stoc ehangach o fusnesau cynaliadwy; busnesau gwerth uwch a mwy cynhyrchiol a charfan fwy o fusnesau bach a chanolig sy'n anelu at dyfu'n gyflym.

Felly, bydd y Grŵp Cefn Gwlad yn ceisio cyflawni'r nod lefel uwch trwy:

- *Darparu cyngor busnes wedi'i deilwra a chefnogaeth ar gyfer cadw a thyfu busnesau;*
- *Creu mwy o gyfleoedd gwaith trwy gefnogi busnesau cynhenid i greu mwy o swyddi;*
- *Cryfhau cydnerthedd cyflogwyr cynhenid;*
- *Cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth, effeithlonrwydd a thyfiant busnesau amaethyddol a choedwigol, twristiaeth, sectorau creadigol a bwyd, a chefnogi newydd-ddyfodiaid i'r sectorau hyn.*
- *Datblygu diwylliant mwy entrepreneuriaidd.*

Nod strategol 2: cefnogi gweithlu medrus ac uchelgeisiol

Er mwyn datblygu economi ffyniannus a chynaliadwy yn cynnig swyddi gwerth uwch, bydd rhaid gwella lefelau sgiliau lleol, fel y gall pobl leol o bob oed gynnig y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar fusnesau lleol. Er mwyn gwneud hyn mae angen gwella sgiliau'r gweithlu presennol i wynebu gofynion busnes mwy heriol i'r dyfodol ac i sicrhau bod pobl ifanc yn gadael addysg gyda'r cymwysterau a'r wybodaeth angenrheidiol am gyfleoedd gwaith i'r dyfodol. Caiff gweithgareddau eu halinio â'r Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru.

Felly, bydd y Grŵp Cefn Gwlad yn ceisio cyflawni'r nod lefel uwch trwy:

- *Gwella cyraeddiadau ac uchelgais;*
- *Sicrhau bod darpariaeth addysgol yn gydnaws ag anghenion cyflogwyr ac yn cael ei llywio ganddynt.*

Nod strategol 3: ceisio creu cymaint o swyddi a chyfleoedd gwaith ag y bo modd

Mae'r gyfradd ddiweithdra ymhlith y boblogaeth oed gwaith wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhagfynegiadau yn dangos y bydd llwybr adferiad a thwf yr economi yn dilyn patrwm o dwf yn nifer y bobl ddi-waith. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith fod cyfran weddol uchel o'r boblogaeth oed gwaith yn cael ei hystyried yn economaidd anweithgar. Wrth geisio ymateb i hynny, nod y strategaeth yw cynyddu nifer a hygyrchedd cyfleoedd gwaith cynaliadwy.



Felly, bydd y Grŵp Cefn Gwlad yn ceisio cyflawni'r nod lefel uwch trwy:

- *Cefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar i ddychwelyd i'r gwaith;*
- *Hyrwyddo a hwyluso datblygu mentrau lleol.*

Nod strategol 4: cefnogi gwaith datblygu'r economi wybodaeth

Mae'r rhanbarth yn gyffredinol yn cynnwys cyfran gymharol fechan o swyddi mewn busnesau gwybodaeth ddwys. Mae hyn yn fwy gwir fyth yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin. Er mwyn datblygu economi ffyniannus a chynaliadwy, mae angen inni fuddsoddi ymhellach yn y defnydd o dechnolegau newydd er mwyn sicrhau y gall ein busnesau lleol gystadlu mewn marchnadoedd ehangach.

Felly, bydd y Grŵp Cefn Gwlad yn ceisio cyflawni'r nod lefel uwch trwy:

- *Cefnogi ac annog mwy o fusnesau bach a chanolig i fanteisio ar dechnolegau newydd a'u defnyddio;*
- *Cryfhau cysylltiadau rhwng busnesau bach a chanolig a chyfleusterau ymchwil.*

Nod strategol 5: datblygu nodweddion unigryw ac atyniad yr ardal o ran twristiaeth, buddsoddi mewn busnesau tra'n sicrhau bod Cymru yn genedl gydnerth

Mae ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin yn cynnwys lleoliadau tra gwahanol a deniadol, a chymysgedd o drefi marchnad a chanolfannau siopa cyfoes ynghyd â thirweddau trawiadol. Mae cyfoeth ac amrywiaeth ei threftadaeth a'i diwylliant hefyd yn gryfder o bwys yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, er mwyn denu a chadw pobl dalentog mae angen sicrhau bod gwasanaethau allweddol sy'n araf yn cael eu colli mewn llawer o drefi a phentrefi gwledig yn parhau i fod ar gael. Mae seilwaith hefyd yn rhan allweddol o adfywio ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys safleoedd ac adeiladau busnes; trefi marchnad deniadol a mynediad i drafnidiaeth wledig.

Felly, bydd y Grŵp Cefn Gwlad yn ceisio cyflawni'r nod lefel uwch trwy:

- *Datblygu a chyflwyno rhaglen fuddsoddi sy'n mynd i allu denu ymwelwyr a buddsoddwyr i'r ardal;*
- *Targedu'r gwaith o ddatblygu tir, eiddo a seilwaith;*
- *Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn sgil seilwaith Del Rhanbarth Dinas Bae Abertawe Band Eang y Genhedlaeth Nesaf;*
- *Cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg;*
- *Gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil ynni gwyrddach.*



Nod Strategol 6: cefnogi iechyd a lles poblogaeth ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin.

Gyda llawer o'n hardaloedd gwledig yn colli eu gwasanaethau, ffocws allweddol y Strategaeth Datblygu Leol fydd i nodi a phrofi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig megis caffi cymunedol, hamddena, siopau, trafnidiaeth, gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant ac ati sy'n yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb. Bydd gweithgareddau ynghylch datblygiad mentrau cymdeithasol; trosglwyddo asedau, rhannu darpariaeth / gwasanaeth symudol a sicrhau ymgysylltiad gwirfoddol wrth ddarparu gwasanaethau lleol.

Comisiynwyd gan y LAG adroddiad astudio i mewn i dlodi mewn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin ac y byddant yn mynd ati i weithredu ar yr argymhellion a themâu allweddol a nodwyd yn yr adroddiad:

- *Sicrhau mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.*

Os oes gennych syniad blaengar neu i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Thîm y Cynllun Datblygu Gwledig drwy ffonio 01267 242431/394, ebostio RDPSirgar@sirgar.gov.uk neu fynd i'r wefan <http://wwec.org.uk>

